

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 4 Ebrill 2016 am 7.30yh yn Ystafell Berkley, Penyparc

Presennol:

Cyng. Lyn Jones (*Cadeirydd*)
Cyng. Dilwyn Jenkins
Cyng. Eurig Lloyd
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

Cyng. Ann Stokoe (*Is-Gadeirydd*)
Cyng. Llinos Price
Cyng. Haydn Lewis (*aelod lleol y Cyngor Sir*)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Lyn Jones, bawb i gyfarfod mis Ebrill. Diolchwyd i'r Clerc dros dro, Mr Wynford Jones, am lanw'r bwch yn ystod cyfnod o wyliau'r Clerc yn Seland Newydd. Aethpwyd ymlaen i drafod yr Agenda.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyngorwyr Islwyn Iago, Des Davies, Auriol Williams, Huw Jones, Morris Davies.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod cofnodion mis Mawrth yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Y Cyng. Dilwyn Jenkins (gweler eitem 7, Cynllunio)
- 5. Materion yn codi:**
 - (a) Hysbysfwrdd Penyparc:** Dywedodd y Cyng. Lyn Jones bod Mr Dyfed Symmons wedi cywiro'r hysbysfwrdd a bydd yn ei ddychwelyd cynted â bo modd.
 - (b) Arwydd "Mwnt":** Deillir gan gyn-glerc Cyngor Cymuned Llangoedmor mai'r Cyngor Sir oedd yn gyfrifol am dalu am arwydd "Pencroeswel" yn Llangoedmor.
 - (c) Cinio'r Cadeirydd:** Cadarnhawyd y cynhelir y ginio ar y 1 Mai yng Nghlwb Golff Aberteifi. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r aelodau ynglŷn a'r ginio
 - (d) Llechen goffael yn y clawdd gyferbyn â Hen Ysgol y Ferwig:** Cytunodd y Cyngor ailosod y llechen ar fur yr Hen Ysgol. Mae'r Cadeirydd wedi cysylltu gyda Mr Dyfed Symmons a chytunwyd ar bris oddeutu £350.
 - (e) Medal i ddathlu pen-blwydd Brenhines Elizabeth II yn 90 oed.** Cytunwyd trafod y mater yng nghyfarfod mis Mai.
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Hen Ysgol y Ferwig	I'w drafod ym mis Hydref 2016
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	I'w drafod ym mis Hydref 2016
Ysgol Feithrin Penyparc	I'w drafod ym mis Hydref 2016
Papur Bro "Y Gambo"	I'w drafod ym mis Hydref 2016
Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion	Dim
Urdd Gobaith Cymru	Dim
Gofal Canser Tenovus	£100
Cynigydd: Y Cyng. Llinos Price	Eilydd: Y Cyng. Ann Stokoe
Cyngor Ar Bopeth	£50
Cynigydd: Y Cyng. Ann Stokoe	Eilydd: Y Cyng. Dilwyn Jenkins
Ymddiriedolaeth Canser i Blant yn eu Harddegau	£50
Cynigydd: Y Cyng. Eurig Lloyd	Eilydd: Y Cyng. Llinos Price
Gofal Mewn Galar	£50
Cynigydd: Y Cyng. Ann Stokoe	Eilydd: Y Cyng. Eurig Lloyd
Gŵyl Fawr Aberteifi	£150
Cynigydd: Y Cyng. Dilwyn Jenkins	Eilydd: Y Cyng. Llinos Price
Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc (Ambiwylans Awyr Cymru)	£100
Cynigydd: Y Cyng. Llinos Price	Eilydd: Y Cyng. Eurig Lloyd
Adran yr Urdd Penyparc	£100
Cynigydd: Y Cyng. Llinos Price	Eilydd: Y Cyng. Ann Stokoe

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

7. Cynllunio

<i>Rhify Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau'r Cyngor</i>
A160166	Brynarfor, Gwbert: "Retention of subdivision of existing dwelling (Brynarfor) to two (1 bedroom) dwellings (Brynarfor and Arfor-fach)"	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.

Anfonwyd yr uchod at y Cyngor Sir ar 24 Mawrth.

Datganiad diddordeb (A160166): Y Cyng. Dilwyn Jenkins

8. Materion Ariannol

Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Mawrth 2016)	101513	£302.72
Costau'r Clerc (Mawrth 2016)	101514	£57.85
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Mawrth 2016)	101515	£75.60
SSE Swalec: Trydan Cae Chwarae Penyparc	101516	£78.15 ★
SSE Swalec: Trydan yr Ystafelloedd Newid	101517	£31.15

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod y biliau uchod yn cael eu talu, ar wahan i fil trydan Cae Chwarae Penyparc ★, cyn gwneud ymholiadau pellach.

Ceisiadau am gymorth ariannol (gweler eitem 6 uchod)

Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc (Cymorth Ariannol tuag at rodd y Clwb i Ambiwylans Awyr Cymru)	101518	£100.00
Adran yr Urdd, Penyparc	101519	£100.00
Tenovus Penyparc	101520	£100.00
Cyngor ar Bopeth	101521	£50.00
Ymddiriedolaeth Canser i Blant yn eu Harddegau	101522	£50.00
Gofal mewn Galar	101523	£50.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	101524	£150.00

Materion ariannol eraill: Y Clerc i gysylltu â Mr Ken Griffiths, Archwilydd Mewnol y Cyngor, i gyflawni'r archwiliad.

9. Gohebiaeth / Correspondence

102	Arennau Cymru Taith Dros Fywyd 2016	Taith Dros Fywyd: Sul, 24 Ebrill. I drefnu'r daith, cysyllter â swyddfa Sefydliad Arennau Cymru: 029 2034 3940 neu lowri@kidneywales.cymru	Gofynnwyd i'r Clerc leoli poster yn yr hysbysfyrdau.
103	Mr Peter Williams Penparc	Gwybodaeth am ddatblygiad band eang cyflym yn ardal pentref y Ferwig.	Am wybodaeth bellach: www.cyflym u-cymru.com
104	Cyngor Sir Ceredigion (Pennaeth Gwasanaethau Technegol)	Meinciau ar safle'r Olygfan yn Gwbert. Mae'r fainc a roddwyd gan Mr Robert Davies er cof am ei rieni wedi ei gosod gan y Cyngor Sir. Yn dilyn archwiliad gan y cyngor hwnnw, mae'r chwe mainc sydd yno'n barod mewn cyflwr boddhaol er y cynghorwyd gan Mr Melvyn Hopkins (swyddog y Cyngor Sir) y dylid peintio tair ohonynt.	Mae'r llythyr, a lofnodwyd gan Mr Paul Arnold (pennaeth yr adran), yn egluro mai Cyngor Cymuned y Ferwig sydd yn gyfrifol am waith cynnal a chadw ar y meinciau. Cytunwyd y dylid gwneud ymchwil i berchenogion y meinciau a'u hatgoffa eu bod yn gyfrifol am eu cynnal a'u cadw.
105	Pwyllgor Lles Pentref Penyparc	Cais am ganiatâd i ddefnyddio Cae Chwarae Penyparc i gynnal y Carnifal Blynyddol ar 11 Mehefin 2016.	Y Clerc i ymateb yn gadarnhaol i'r pwyllgor.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

106	Cyngor Tref Aberteifi	Gwahoddiad i Gadeirydd y Cyngor fynychu Seremoni Sefydlu Maer Aberteifi, 17 Mai am 7.30 yn Neuadd y Dref	Bydd y Cyng. Ann Stokoe yn mynychu'r cyfarfod.
107	Mr Ken Griffiths, Graig, Mwnt.	E-bost yn datgan ei bryder am y sticil sydd wedi torri rhwng ei dir ef a thir cymydog gan achosi perygl i gerddwyr ar fannau cul y llwybr arfordir.	Mae'r Clerc wedi anfon copi ymlaen at Mr Nigel Nicholas, Swyddog Llwybrau Cyhoeddus y Cyngor Sir, a chopi at Mr Griffiths. Derbyniwyd copi o ymateb e-bost Mr Nicholas at Mr Griffiths ar 1/4/16.

10. Materion Eraill:

- (a) **Arwyddion Llwybr Troed o stâd Dolwerdd allan i briffordd A487:** Yn dilyn sgwrs gyda Mr Nigel Nicholas, dywedodd y Cyng. Dilwyn Jenkins mai yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf y bydd y gwaith yn cael ei gyflawni.
- (b) **Llythyr aelod o'r cyhoedd a gyhoeddwyd yn y "Tivy-Side" ar 5 Ebrill 2016 ynglŷn â chyflwr y llinellau gwyn tu allan i'r Clwb Cychod yn Patch:** Cytunwyd gysylltu ag adran briffyrdd y Cyngor Sir am y pryderon hyn. Cymerodd y Cynghorydd Sir, y Cyng. Haydn Lewis, gyfrifoldeb am lythyru'r cyngor sir: gwnaeth hyn ar ran y Cyngor lleol.
- (c) **Baw Cŵn a Pharcio ar y Palmant ym Mhenyparc:** Gofynnwyd i'r Clerc ailgysylltu â PCSO Matthew Kieboom ynglŷn â'r pryderon hyn.

11. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 9 Mai 2016 (Cyfarfod Blynyddol) yn Hen Ysgol y Ferwig am 7.30 o'r gloch.

Cyfarfodydd y Cyngor am 2016

6 Mehefin (YB) 4 Gorffennaf (F)

5 Medi (YB) 3 Hydref (F) 7 Tachwedd (YB) 5 Rhagfyr (F)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 4 April 2016 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

Present

Cllr Lyn Jones (*Chairman*)
Cllr Dilwyn Jenkins
Cllr Eurig Lloyd
Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

Cllr Ann Stokoe (*Vice Chairperson*)
Cllr Llinos Price
Cllr Haydn Lewis (*local member of the County Council*)

1. **Chairperson's welcome.** The Chairman, Cllr Lyn Jones, welcomed everyone to the April meeting. He thanked Mr Wynford Jones, interim Clerk, for his work whilst the Clerk was on vacation in New Zealand. He then proceeded with the evening's agenda.
2. **Apologies for absence:** Councillors Islwyn Iago, Auriol Williams, Huw Jones, Des Davies, Morris Davies.
3. **Minutes of the previous meeting.**
It was proposed by Cllr Eurig Lloyd and seconded by Cllr Llinos Price that the minutes of the March meeting be recorded as correct.
4. **Declaration of personal interests:** Cllr Dilwyn Jenkins (see Item 7, Planning)
5. **Matters arising:**
 - (a) **Penyparc Notice Board:** Cllr Lyn Jones confirmed that Mr Dyfed Symmons had completed the repairs to the noticeboard and will return it as soon as possible.
 - (b) **"Mwnt" Signpost:** It is understood by the past Clerk of Llangoedmor Community Council that the County Council paid for the sign "Pencroeswel" at Llangoedmor.
 - (c) **Chairman's Dinner:** It was confirmed that the dinner will be held on Sunday, 1 May at Cardigan Golf Club. The Clerk will contact all members for final figure.
 - (d) **Commemorative slate opposite the Old School in Ferwig:** It has been agreed that the Council will re-position the slate on the Old School wall. The Chairman has contacted Mr Dyfed Symmons who will carry out the work for approximately £350.
 - (e) **Medal to commemorate Queen Elizabeth's 90th birthday:** It was agreed to discuss this at the May meeting.
6. **Requests for financial support.**
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Hen Ysgol y Ferwig Old School	To be discussed at the October 2016 meeting
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	To be discussed at the October 2016 meeting
Ysgol Feithrin Penyparc	To be discussed at the October 2016 meeting
Welsh newspaper – "Y Gambo"	To be discussed at the October 2016 meeting
Ceredigion Young Farmers' Clubs	Nil
<i>Urdd Gobaith Cymru</i>	Nil
Tenovus –Penyparc Group	£100
Proposer: Cllr Llinos Price	Seconded: Cllr Ann Stokoe
<i>Citizens' Advice Bureau</i>	£50
Proposer: Cllr Ann Stokoe	Seconded: Cllr Dilwyn Jenkins
Teenage Cancer Trust	£50
Proposer: Cllr Eurig Lloyd	Seconded: Cllr Llinos Price
<i>Cruse Bereavement Care</i>	£50
Proposer: Cllr Ann Stokoe	Seconded: Cllr Eurig Lloyd
<i>Gŵyl Fawr Aberteifi</i>	£150
Proposer: Cllr Dilwyn Jenkins	Seconded: Cllr Llinos Price
Penyparc Young Farmers' Club (Wales Air Ambulance)	£100
Proposer: Cllr Llinos Price	Seconded: Cllr Eurig Lloyd
Adran yr Urdd Penyparc	£100
Proposer: Cllr Llinos Price	Seconded: Cllr Ann Stokoe

(Names in italics = accounts forwarded with applications)

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

7. Planning:

<i>Application No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>County Council's Observations</i>
A160166	Brynarfor, Gwbert: "Retention of subdivision of existing dwelling (Brynarfor) to two (1 bedroom) dwellings (Brynarfor and Arfor-fach)"	Council has no objections

The above was forwarded to the County Council on 24 March.

Declaration of Interest (A160166): Cllr Dilwyn Jenkins

8. Financial Matters.

Bills paid:

Clerks wages (March 2016)	101513	£302.72
Clerk's Expenses (March 2016)	101514	£57.85
H M Customs & Expenses (Clerk's Inc. Tax March 2016)	101515	£75.60
SSE Swalec (Electricity Cae Gwyrdd Play area)	101516	£78.15 ★
SSE Swalec Electricity Changing Rooms Ystafell Berkley	101517	£31.15

It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the above bills (with the exception of electricity for the Cae Gwyrdd Play area★) be paid.

Financial support (as agreed in item 6 above)

Penyparc Young Farmers' Club (financial support towards Wales Air Ambulance)	101518	£100.00
Adran yr Urdd, Penyparc	101519	£100.00
Tenovus Penyparc	101520	£100.00
Citizens' Advice Bureau	101521	£50.00
Teenage Cancer Trust Wales	101522	£50.00
Cruse Bereavement Care	101523	£50.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	101524	£150.00

Other Financial Matters: The Clerk to contact Mr Ken Griffiths regarding carrying out the Council's Internal Audit.

9. Correspondence:

102	Kidney Wales Walk for Life.	Walk for Life: Sunday, 24 April. To organise a walk, contact the office of Kidney Wales: 029 2034 3940 or lowri@kidneywales.cymru	The Clerk was asked to place posters in the noticeboards.
103	Mr Peter Williams Penparc	Information regarding the supply of the super fast broadband service for the village of Ferwig.	For information only: www.cyflym.u-cymru.com
104	Ceredigion County Council (Head of Technical Services)	Benches at the Gwbert Viewpoint. The bench given by Mr Robert Davies in memory of his parents, has been placed at the viewpoint by the County Council. Following an inspection carried out by the County Council, it was stated that the six benches already in situ are in a reasonable condition. Mr Melvyn Hopkins (County Council officer) stated that three of these benches are in need of painting.	A letter signed by Mr Paul Arnold (Head of Technical Services) states that Ferwig Community Council is responsible for the maintenance of these benches. Information regarding the maintenance of benches to be forwarded to the owners.
105	Pwyllgor Lles Pentref Penyparc	Request Council's permission to use the Penyparc Football Field and toilets for their annual village Carnival and Sports Day to be held on the 11 June 2016.	The Council has agreed to the request.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

106	Cardigan Town Council	Invitation to the Chairman of the Council to attend the Mayor Installation Ceremony at Cardigan on 17 May at 7.30 at the Guildhall.	Cllr Ann Stokoe will attend the ceremony.
107	Mr Ken Griffiths, Graig, Mwnt.	E-mail received conveying Mr Griffiths' concern at the broken kissing gate between his land and a neighbour's which could result in livestock causing an accident to walkers on the narrow pathway.	The Clerk has forwarded a copy of Mr Griffiths' letter to Mr Nigel Nicholas, Public Footpath Officer of the County Council. A copy of Mr Nicholas's response to Mr Griffiths was received on 1 April.

10. Other Matters:

- (a) **Footpath Signs from the Dolwerdd estate to the A487 main road:** Mr Nigel Nicholas has confirmed that the signs will now be erected during the next financial year.
- (b) **Correspondence in the "Letters Column" of the Tivy-Side:** The Chairman asked the Clerk to draw the County Council's Highways Department's attention to the concerns of a member of the public regarding the white lines on the highway near the Teifi Boat Club in Patch, as noted in the local press. The Clerk duly informed the local member, Cllr Haydn Lewis, who will contact the relevant authority.
- (c) **Dog Fouling and Parking on Pavements in Penyparc:** The Clerk will re-contact PCSO Matthew Kieboom regarding these issues.

11. Date of next meeting: 9 May 2016 (Annual General Meeting) at Hen Ysgol y Ferwig

Dates of Council Meetings for 2016:

6 June (YB) 4 July (F) 5 September (YB)
3 October (F) 7 November (YB) 5 December (F)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting